

## BPEC Dyfarniad mewn Gosod a Chynnal a Chadw Systemau Dwr Poeth Thermol Solar Lefel 3



### Yn gwyno

Mae hwn yn gymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol mewn gosod a chynnal a chadw systemau dwr poeth thermol bach. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i ddatblygu o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ac fe'i cydnabyddir gan gyrff cofrestru'r Cynllun Ardystio Microgynhyrchu (MCS) fel cymhwyster derbyniol i ymuno ag un o'u cynlluniau priodol.

Mae BTEC yn ddarparwr arbenigol o asesiadau, cyrsiau hyfforddi, deunyddiau dysgu a chymwysterau sy'n cael eu cydnabod gan ddiwydiannau.

Mae'r cwrs hwn ar gael fel rhan o Gyfrif Dysgu Personol (PLA). Mae PLA yn fenter gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig cyfle i bobl gael mynediad at gyrsiau rhan-amser, rhad ac am ddim sydd â ffyrdd hyblyg a chyfleus o ddysgu sy'n addas i'w ffordd o fyw presennol.

### Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...unrhyw un dros 19 oed, sy'n byw yng Nghymru ac mewn cyflogaeth. Nid yw'r terfyn cyflog o £32,371 yn berthnasol i'r cwrs hwn.



## TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

... peirianwyr mecanyddol a phlymwyr cymwys sydd eisiau ymestyn eu sgiliau i osod a chynnal a chadw systemau technoleg amgylcheddol.

### Cynnwys y cwrs

Mae'r cymhwyster Lefel 3 hwn yn ddelfrydol os ydych yn blymwr neu beiriannydd profiadol sydd eisiau gosod a chynnal a chadw'r math hwn o dechnoleg amgylcheddol. Mae'n cynnwys 5 uned orfodol, sy'n cynnwys elfennau ymarferol a damcaniaethol. Rhaid cyflawni'r HOLL unedau er mwyn cyflawni'r cymhwyster cyffredinol.

Gwybod y gofynion ar gyfer gosod, comisiynu a throsglwyddo systemau dwr poeth thermol solar

Gosod, comisiynu a throsglwyddo systemau dwr poeth thermol solar 'gweithredol'

Gwybod y gofynion ar gyfer archwilio, trin a chynnal a chadw systemau dwr poeth thermol solar 'gweithredol'

Archwilio, trin a chynnal a chadw systemau dwr poeth thermol solar 'gweithredol'

Mae asesiadau'n cynnwys cyfuniad o arholiadau damcaniaethol ac ymarferol.

Mae cwblhau'r cymhwyster hwn yn llwyddiannus yn profi bod dysgwyr yn gymwys i osod, comisiynu, datgomisiynu gwasanaeth a chynnal a chadw systemau dwr poeth thermol solar, ac felly, bydd yn ymestyn cyfleoedd gyrfa yn y maes technolegau newydd.

Apply online at [www.colegwent.ac.uk](http://www.colegwent.ac.uk)

[studentrecruitment@colegwent.ac.uk](mailto:studentrecruitment@colegwent.ac.uk) | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

